

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 17^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghefn Berain am 10.00 gyda'r Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a Pharti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn y Capel am 6.30 yr hwyr. Croeso i bawb.

2018 ➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am Sul – Ionawr 7^{fed} 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at Gwyn Jones (Peniel) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Walton yn dilyn ei lawdriniaeth, a'r un modd, Gwyneth Rawson (Llanfair), hithau'n cael gofal yn yr Inffirmari yn Ninbych. Cafodd Wil Williams (Llanfair) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos diwethaf hefyd – balch ydym o glywed ei fod wedi cael dod adre erbyn hyn. Cofiw'n hefyd am bawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd a'r rhai hynny sy'n hiraethu am anwyliaid y Nadolig hwn. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.
- Llongyfarchiadau i Iwan a Glian Jones (Llansannan) ar enedigaeth mab, Math Ifan, brawd bach i Cai. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni. Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Ellis (Llansannan) a Beca Anwyl Owen ar eu dyweddiad, ac i Rhiannon Roberts (Saron) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddeuddydd cyn y Nadolig!

I ddod

- **OEDFA DECHRAU'R FLWYDDYN YN SARON** nos Fawrth, Ionawr 9fed am 7.00 gyda Dr Owain Edwards, Coleg y Bala yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2^{il} – 5^{ed} gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Mae pris gostyngol i bawb sy'n archebu lle i aros cyn diwedd 2017. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, Ionawr 3^{ydd} os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Rhagfyr 2017

Y Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar Ionawr 7fed.

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau Nadolig ar hyd a lled Bro Aled heddiw. Gweddiwn am oleuni'r Ysbryd Glân er mwyn i ninnau hefyd allu rhyfeddu a moli fel y bugailiaid a'r doethion wrth gael clywed unwaith eto am wyrth y Ceidwad yn y crud. Gan mai hwn yw Llais Bro Aled olaf 2017 dyma'r cyfle i mi, Mair, a Gwion dymuno Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd fendithiol i bawb ohonoch, ac i ddiolch i bawb am eich cefnogaeth a'ch cymorth dros y flwyddyn aeth heibio. Diolch o galon hefyd i bob un o'r fro fu'n ymweld â chartrefi gofal lleol i ganu carolau dros yr wythnos ddiwethaf.

Siom fawr oedd gorfod gohirio'r gwasanaeth carolau a phlygain nos Sul diwethaf, ond os Duw a'i myn gobeithiwn aildrefnu gwasanaeth carolau a phlygain i bob oed yng nghapel Llanefydd am 10.30 fore Sul nesaf. Dewch i gael toriad o'r paratodau munud olaf a mwynhau mawl, paned, a mins pei cyn cinio!

Wedi'r holl rybuddion am y rhew a'r eira, mae'n ymddangos fod yr arbenigwyr tywydd yn haeddu canmoliaeth am fod yn eithaf agos i'w lle gyda'u rhagolygon. Ddydd Sul yn enwedig, roedd hi'n anodd peidio rhyfeddu mor gywir oeddynt wrth ddarogan amseriad y pluo trwm. Ond teimlad digon rhyfedd yw gweld rhywbeth yn digwydd yn union fel y mae rhywun wedi dweud wrthyh ynte? Dwi'n siŵr mai profiad tebyg gafodd Mair a Joseff pan anwyd Iesu. Roedd y ddau ohonynt wedi cael gwybod o flaen llaw am y geni unigryw (Mathew 1:18-25; Luc 1:26-38), ac eto gallwn ddeall yn iawn pam mai rhyfeddu a wnaeth pawb a glywodd y disgrifiadau gwych am Fab Mair (Luc 2:18; 22). Tueddu i ryfeddu wnawn ninnau wrth weld eira hefyd, er bod y mwyafrif ohonom yn hen gyfarwydd ag ef! Ond nid yw'r rhyfeddu hwnnw'n parhau gan fod yr eira'n diflannu mor sydyn i ni yng Nghymru.

Wrth i ni glywed hanes y Geni unwaith eto eleni, beth am i ni weddio am gymorth Duw i beidio dotio dros dro fel y gwnawn hefo eira, ond yn hytrach i ddydsu gan Mair a gadwodd y cyfan a glywodd yn ddiogel yn ei chalon a myfyrio arnynt (Luc 2:19). Nid megis seren wib y daeth Iesu ond i fyw go iawn, i dyfu'n ddyn a gadwodd y gyfraith yn berffaith cyn mynd o'i wirfodd i'r groes i waredu ei bobl o'u pechodau (Mathew 2:21). Oherwydd hynny, yr ymateb priodol yw ymddiried: rhoi ein calon a'n bywyd i Iesu yr unig Achubydd, fel yr anogir ni yng ngharol 466 (CFF):

Beth a roddaf iddo,
llwm a thlawd fy myd?
Pe bawn fugail rhoddwn
orau'r praidd i gyd;

pe bawn un o'r doethion
gwnawn fy rhan ddi-goll;
ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.

CHRISTINA ROSSETTI, 1830-94, CYF. SIMON B. JONES, 1894-1964

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Ni fydd **OEDFA I'R FRO** heno.
- Mercher – 20^{fed} ➤ **DAL I GREDU** – sesiwn holi a thrafod yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 21^{ain} ➤ **CYFARFOD PLANT LLANEFYDD** am 3.15.
- Gwener – 22^{ain} ➤ **CINIO NADOLIG C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00. Enwau i Gwion **mor fuan â phosib**, os gwelwch yn dda!
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa garolau i'r teulu yng Nghapel Llanefydd **am 10.30** y bore, a phaned a mins pei i ddilyn.
- Iau – 28^{ain} ➤ **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Festri Llansannan am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- Gwener – 29^{ain} ➤ **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** yn ardal Talacre. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Byddwn yn cyfarfod am 10.30 ym maes parcio 'The Point', Station Road, Talacre (CH8 9RP) i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr a hanner, ac yna mae croeso i bwy bynnag sy'n dymuno, ddod i gael cinio (neu fyrbryd) yng ngwesty'r Tŷ Gwyn, Rhualt (LL17 0AW) am 12.30. (Nid yw'r daith gerdded yn addas ar gyfer olwynion, ond mae'n bosib i chi gerdded ar hyd llwybr tarmac arall gerllaw os byddwch yn dymuno hynny.) ***PWYSIG*** Rhowch eich enw i Mair **erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni am ginio fel y gallwn archebu'r bwyd ymlaen llaw (mae bwydlen a map ar gael gan Mair). Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu cysylltwch â Mair.
- Sul – Rhagfyr 31^{ain} ➤ **OEDFA I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog **am 10.30**.
- 2018**
- Sul – Ionawr 7^{fed} ➤ **OEDFA I'R FRO** yn Llansannan am 6.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.
- 2018**
- Sul – Ionawr 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 ac fe wneir casgliad arbennig er budd "Corwynt Cariad". Yn dilyn y gwasanaeth, bydd cinio i bawb yn y Neuadd Goffa.
- 2018**
- Sul – Ionawr 7^{fed} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Granar am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Festri. Plis cysylltwch â John G. Jones (870607) os hoffech gyfrannu at y bwyd. Croeso i bawb!
- Llun – 18^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 a phaned i ddilyn.
- Llun – 18^{fed} ➤ 'Awn i Fethlehem' – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Shelter Cymru.
- Mercher – 20^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (17^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Llun – 25^{ain} ➤ Plygain yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore Nadolig.
- 2018**
- Mawrth – 2^{il} ➤ Cynhelir Cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn Festri Llansannan am 7.30 yng nghwmni Merched y Wawr Llansannan fydd yn rhoi cyflwyniad am ddatblygiad cyfieithu'r Beibl dros y canrifoedd. Croeso i bawb.
- Sul – Ionawr 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Festri. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid yn Saron am 2.00. Bydd Siôn Corn yn galw heibio ar ôl y gwasanaeth a bydd paned a chacen i bawb.
- 2018**
- Sul – Ionawr 7^{fed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.